# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mehefin 2020

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Ar 4 Mehefin 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

(14.00-14.20) (Tudalennau 1 - 32)

Papur 1 - Adroddiad drafft

## 3 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod yr adroddiad drafft

(14.20-14.40) (Tudalennau 33 - 73)

Papur 2 - Adroddiad drafft

## 4 Cyflwyno a gweithredu rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol Papur cwmpasu

(14.40-15.00) (Tudalennau 74 - 76)

Papur 3 - Papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad

## 5 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid 2020

(15.00-15.15) (Tudalennau 77 - 85)

Papur 4 - Papur cyfreithiol: Y Bil Cyllid

Papur 5 - Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Ymateb y Llywodraeth - dyfodol prisiau carbon yn y DU

Papur 6 – Adroddiad drafft

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Cyllid

## 6 Ymchwiliad i broses cyllideb ddeddfwriaethol: Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(15.15–15.30) (Tudalennau 86 – 91)

Papur 7 – Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

## 7 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Pwyllgor Cyllid

(15.30–15:40) (Tudalennau 92 – 95)

Papur 8 – Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd y Bwrdd – 5 Mai 2020

## 8 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Treuliau'r Cadeirydd

(15.40–15.50) (Tudalennau 96 – 103)

Papur 9 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – 5 Mai 2020

Papur 10 – Cyngor cyfreithiol

## 9 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru

(15.50–16.00) (Tudalennau 104 – 108)

Papur 11 – Papur eglurhaol

Papur 12 – Llythyr gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg – 7 Chwefror 2020

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymateb y Llywodraeth – Dyfodol prisio carbon yn y DU** |
| **DYDDIAD** | **1 Mehefin 2020** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig** |

Heddiw, cyhoeddais ymateb i'r ymgynghoriad ar ddyfodol prisio carbon yn y DU, ar y cyd â Gweinidogion o wledydd eraill y DU.  Rydym yn bwriadu sefydlu System Masnachu Allyriadau (ETS) ar gyfer y DU, gyda Cham 1 yn para o 2021 hyd 2030. Gallai hon weithredu fel system gysylltiedig neu system annibynnol. Mae'r cynllun hwn yn cyflawni ein huchelgeisiau amgylcheddol, wrth reoli'r costau i fusnesau ac arwain y gwaith o ddatblygu marchnadoedd carbon byd-eang.

Mae ETS y DU yn bolisi allweddol i ategu'r gwaith o leihau allyriadau o'n safleoedd ni sydd â'r allyriadau uchaf mewn modd cost-effeithiol. Mae tua 50% o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn dod o'r sectorau pŵer, diwydiant a hedfan – sectorau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn. Heb os mae angen sicrwydd ar ein busnesau ni ac, ar yr adeg anodd hon, byddwn yn helpu diwydiant i adfer a bod yn gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol yn y dyfodol.

Bydd ein polisïau yng Nghymru yn cyflawni ein targedau strategol ac yn cyfrannu'n llawn at wireddu allyriadau sero-net yn y DU erbyn 2050. Yn hyn o beth, i ddechrau bydd y cap yn cael ei osod ar 5% o dan gyfran dybiannol y DU o gap System Masnachu Allyriadau'r UE ar gyfer Cam IV, sy'n dechrau yn 2021. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r lefel hon ar ôl derbyn cyngor gan y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas â'n cyllidebau carbon a'r llwybr ar gyfer lleihau allyriadau yn y dyfodol.

Bydd llawer o nodweddion y cynllun yn gyfarwydd i'r cyfranogwyr. Bydd arwerthu'n parhau i fod y brif ffordd o gyflwyno lwfansau i'r farchnad, gyda lwfansau am ddim i ddiogelu cystadleurwydd a rheoli'r risg o ollwng carbon. Os ceir system annibynnol, bydd mecanweithiau i reoli pris lwfansau yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r hawl i'r rhai sy'n allyrru lefelau isel ac ysbytai optio allan yn sicrhau bod y baich o gydymffurfio'n gymesur. Ni chaniateir credydau rhyngwladol yn ETS y DU ar yr adeg hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ac yn gyson ynghylch y ffaith y byddwn ni'n ffafrio yn gryf ETS ar gyfer y DU wedi'i chysylltu â system yr UE. Dyma oedd yr opsiwn a ffefrir gan gyfran fawr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am sicrhau hyn ar gyfer ein busnesau fel rhan o'r trafodaethau Brexit ehangach. Rwy'n galw ar dimau trafod y DU a'r UE i wneud yr hyn sydd orau ar gyfer pob parti, a sicrhau cytundeb i gysylltu ein marchnadoedd carbon. Rwyf hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw arian a godir drwy System Masnachu Carbon ar gyfer y DU yn cael ei ddefnyddio i gefnogi busnesau yng Nghymru a ledled y DU i fod yn lanach ac yn fwy ffyniannus yn y dyfodol.

Byddaf yn ysgrifennu at bwyllgorau perthnasol y Senedd ynglŷn â'r polisi hwn, yn unol â'u rôl o graffu ar fframweithiau'r DU gyfan.

Mae ymateb y Llywodraeth ar gael yma:
[https://llyw.cymru/prisio-carbon-y-du-yn-y-dyfodol](https://llyw.cymru/prisio-carbon-y-du-yn-y-dyfodol)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

9 Ionawr 2020

Annwyl Rebecca

**Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb**

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am **ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Cyllid i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb**. Fel y gwyddoch efallai, mae'r Pwyllgor wedi bod mewn cyswllt â Daniel Greenberg (cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn deddfwriaeth a'r broses ddeddfwriaethol) ac wedi cymryd tystiolaeth gan Dr Joachim Wehner ar arfer gorau rhyngwladol wrth graffu ar gyllidebau.

Er ein bod yn cydnabod bod y broses gyllidebol a'r setliad datganoli yng Nghymru yn wahanol i'r rhan fwyaf o wledydd eraill, mae'r Alban wedi bod yn trafod materion tebyg iawn. Felly, roedd gwaith casglu tystiolaeth y Pwyllgor yn cynnwys cyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd yng Nghaeredin i ddysgu o waith Grŵp Adolygu Proses y Gyllideb yr Alban.

Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y byddai proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu aeddfedrwydd y Cynulliad yn well, gan roi cyfle i adolygu priodoldeb y broses gyllidebol bresennol, gwella tryloywder a chryfhau rôl Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ar ôl datganoli pwerau cyllidol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi llwyddiant y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban i sefydlu grŵp i adolygu'r broses gyllidebol bresennol yn sylfaenol ac mae'n credu y gallai dull tebyg fod yn addas yng Nghymru.

Mae'r Aelodau'n cytuno y dylai egwyddorion symlrwydd, tryloywder ac atebolrwydd fod wrth wraidd unrhyw broses ddeddfwriaethol, ac yn cydnabod yr angen i ystyried sut y byddai proses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb yn darparu ar gyfer penderfyniadau treth, yn ymgorffori cynigion gwariant, trethiant neu fenthyca eraill, yn cyd-fynd â phrosesau Swyddfa Archwilio Cymru, yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer oedi ar lefel y DU, ac yn hwyluso cyfranogiad y cyhoedd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Credwn fod angen gwneud rhagor o waith hefyd i ganfod:

- a fyddai Bil Cyllideb neu Fil Cyllid yn fwy addas ar gyfer awdurdodi cynlluniau gwariant a threthi Cymru;
- sut y byddai modelu Llywodraeth Cymru a rhagolygon annibynnol yn cael eu hymgorffori yn y broses;
- sut a phryd y gellid gwneud gwelliannau i Fil, gan barhau i sicrhau gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb ei hun;
- yr effaith ar waith craffu ariannol ehangach y Cynulliad, megis craffu yn ystod y flwyddyn, y gyllideb ddrafft a chraffu ar Filiau;
- y disgwyliadau ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllidebau aml-flwyddyn, yn enwedig i lywodraeth leol a phartneriaid cyflenwi.

Yn y tymor byr, byddai datblygu amserlen ar gyfer gwaith craffu yn y Cyfarfod Llawn yn gwella ansawdd a chyfranogiad yn y broses bresennol o graffu ar y gyllideb. Felly, byddem yn eich annog i drefnu dadl ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ym mis Mai/Mehefin i lywio'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich presenoldeb yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod safbwynt y Llywodraeth ynghylch symud i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â Chlercod y Pwyllgor Cyllid i drefnu amser sy'n gyfleus i chi ddod i'r Pwyllgor. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe gallech anfon papur atom cyn y sesiwn.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/00221/20

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

09 Mai 2020

Annwyl Llŷr,

Yn gynharach eleni gwnaethoch ysgrifennu ataf ynglŷn ag ymchwiliad y Pwyllgor i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb a'm gwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ac i ddarparu papur tystiolaeth.

Ers hynny, rydym wedi gorfod blaenoriaethu'r ymateb i'r pandemig coronafeirws. Gan ymddiheuro'n ddiffuant felly am beidio â'i ddarparu'n gynt, amgaeaf bapur i'r Pwyllgor ei ystyried.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymchwiliad i broses ddeddfwriaethol ar gyfer y gyllideb**

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â'r Pwyllgor Cyllid dros flynyddoedd lawer i wella proses y gyllideb, cynyddu tryloywder a chefnogi gwaith craffu cadarn.

Ers datganoli, mae'r gyllideb wedi'i chymeradwyo drwy gynnig cyllidebol. Roedd datganoli pwerau trethu yn garreg filltir bwysig yn nhaith gyllidol Cymru gan roi hyd yn oed yn fwy o bwyslais ar broses y gyllideb.

I gydnabod y cyfrifoldebau cyllidol ychwanegol, gwnaethom groesawu ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor Cyllid i'r Arfer Gorau o ran Proses y Gyllideb. O ganlyniad i'r gwaith hwn, cytunwyd ar broses newydd rhwng Senedd Cymru ("y Senedd") a Llywodraeth Cymru yn 2017.

Rydym hefyd yn croesawu ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor sy'n rhoi cyfle i ystyried y newidiadau i broses y gyllideb yn ystod oes y Weinyddiaeth hon ac addasrwydd y trefniadau presennol.

**Proses bresennol y gyllideb**

Cytunwyd ar y broses gyllidebol newydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn 2017. Dyma rai o brif nodweddion y broses newydd:

- proses 2 gam i gynorthwyo gwaith craffu a gwella tryloywder, gyda cham 1 yn nodi'r prif flociau adeiladu cyllidol a chynlluniau gwario strategol a cham 2 yn darparu gwybodaeth fanylach am gyllideb portffolios;
- cynnydd yn y cyfnod craffu o 5 wythnos i hyd at 8 wythnos;
- protocol sy'n nodi'r egwyddorion sy'n sail i broses y gyllideb, gan gynnwys dull ar gyfer cytuno ar ddiwygiadau i'r broses gan gydnabod y gall ffactorau allanol effeithio ar yr amserlen ar gyfer llunio cyllideb Llywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd y newidiadau uchod gyntaf yng Nghyllideb 2017. Ers hynny, rydym wedi wynebu llawer o ansicrwydd, fel ymadawiad y DU â'r UE ac etholiadau mwy mynych y DU, sydd wedi effeithio ar ddigwyddiadau cyllidol y DU ac felly amseriad cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae protocol y gyllideb wedi caniatáu digon o hyblygrwydd yn y broses i ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau eithriadol hyn heb beryglu’r trefniadau craffu yn ormodol.

Mae gwella tryloywder ein cynigion ar gyfer y gyllideb hefyd wedi bod wrth wraidd datblygiadau yn y blynyddoedd diwethaf i gynnwys mwy o fanylder a gwybodaeth ategol yn ystod dau gam y gyllideb ddrafft. Mae'r gwaith hwn yn cydnabod cymhlethdod yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno ar amrywiol adegau yn ystod cylch y Gyllideb, a'r amrywiol ddibenion y mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r wybodaeth ar eu cyfer.

I gefnogi gwaith craffu cadarn, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau ychwanegol fel rhan o becyn y gyllideb, gan gynnwys:

- Adroddiad y prif economegydd – sy’n dadansoddi perfformiad economaidd diweddar yn y DU a Chymru a rhagolygon economaidd a chyllidol yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru a chynllun gwaith polisi trethi blynyddol – sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni amcanion treth strategol Llywodraeth Cymru a dadansoddiad i lywio datblygiad polisi trethi.
- ‘Rhagolwg Trethi Cymreig' – asesiad annibynnol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'n cynigion trethi.
- Tablau Gwariant y Gyllideb Lefel y Prif Grwpiau Gwariant – lefel is o wybodaeth am y gyllideb na'r hyn a gyhoeddwyd yn flaenorol.

**Cymhariaeth â'r Alban**

Rydym yn nodi ystyriaeth y Pwyllgor o broses ddeddfwriaethol cyllideb yr Alban. Er bod gwahaniaethau clir rhwng y dulliau gweithredu yng Nghymru a'r Alban, mae rhai nodweddion tebyg rhwng y ddwy broses.

- *Cyfle i gyflwyno gwelliannau* – Mae proses bresennol cyllideb Cymru yn rhoi cyfle i'r Senedd gynnig gwelliannau ar ôl i’r gyllideb ddrafft gael ei gosod a chyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynlluniau gwario cadarn. Mae hyn i bob pwrpas yn darparu mecanwaith tebyg i'r broses yn yr Alban sy'n caniatáu gosod gwelliannau i fil y gyllideb yng ngham 1.

- *Cyfnod craffu* – Mae cyflwyno'r broses gyllidebu 2 gam yng Nghymru bellach 'fel arfer' yn caniatáu cyfnod o hyd at 8 wythnos ar gyfer craffu. Yn yr Alban, mae eu Rheolau Sefydlog yn nodi na chyhoeddir y gyllideb fel arfer (gan nodi nad ydynt bellach yn llunio cyllideb ddrafft) ddim mwy na 3 wythnos ar ôl cyhoeddi cyllideb y DU, a chyflwynir bil y gyllideb wythnos yn ddiweddarach. Er nad yw'r amseriadau wedi'u pennu, mewn blwyddyn arferol caiff cyllideb yr Alban ei chyhoeddi ychydig cyn y Nadolig, gyda'r gwaith craffu'n cael ei gynnal ym mis Ionawr a bil y gyllideb yn cael ei basio ym mis Chwefror. Mae hyn yn golygu, mewn blwyddyn arferol, fod cyfnod hirach i graffu yng Nghymru nag yn yr Alban.

Un ystyriaeth bwysig yw amseriad cyhoeddi'r gyllideb. Fel y disgrifiwyd uchod, mewn blwyddyn arferol cyhoeddir cyllideb yr Alban ychydig cyn y Nadolig. Yng Nghymru, rydym bob amser wedi ceisio cyhoeddi ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn gynnar yn yr hydref er mwyn cwblhau'r broses cyn toriad y Nadolig a rhoi sicrwydd ariannol cynnar i bartneriaid cyflenwi. Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom groesawu argymhelliad y Pwyllgor Cyllid fel rhan o'r gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2019-2020 bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i harfer presennol o gyhoeddi ei chyllideb ddrafft yn yr hydref, ni waeth beth fo amseriad cyllideb y DU.

O ystyried y materion hyn gyda'i gilydd, mae'r broses yng Nghymru yn caniatáu'r un lefel o graffu a chwmpas i wneud gwelliannau â phroses Llywodraeth yr Alban heb yr angen am broses ddeddfwriaethol lawn.

**Ymgysylltu cyn cyhoeddi’r Gyllideb**

Yn unol â'n hymrwymiad i wella tryloywder a dealltwriaeth o flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru, rydym wedi ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn ystod y

blynyddoedd diwethaf i gynyddu ymgysylltu a chraffu cyn cyhoeddi ein cyllideb ddrafft. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff a ariennir yn uniongyrchol.

Yn ogystal, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor Cyllid, rydym wedi cytuno i adeiladu ar y camau a gymerwyd gennym y llynedd ac i gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf, gan ganolbwyntio ar faterion strategol.

**Cyllidebau aml-flwyddyn**

Ein huchelgais bob amser yw darparu setliadau aml-flwyddyn lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae ein gallu i ddarparu sicrwydd ariannu tymor hwy yn dibynnu ar gylch cyllideb Llywodraeth y DU ac nid yn gysylltiedig â'n proses gyllidebol ein hunain.

**Deddfwriaeth treth a gwariant gyfun**

Nodwn fod y Pwyllgor yn ystyried yr achos dros gael un cyfrwng deddfwriaethol sy'n cwmpasu cynlluniau trethu a gwariant. Deellir yn gyffredinol bod deddfwriaeth gyllidebol yn ddull sy'n benodol ar gyfer cymeradwyo terfynau gwariant cyffredinol ac mae'n tueddu i fod yn weithdrefn ddeddfwriaethol symlach sy'n cyfyngu ar welliannau nad ydynt yn welliannau gan y Llywodraeth. Mae deddfwriaeth gyllidebol yn tueddu i ddefnyddio amserlen garlam i sicrhau cymeradwyaeth cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Un ystyriaeth bwysig yw a fyddai cyflwyno elfennau eraill megis trethiant fel rhan o'r un cyfrwng deddfwriaethol ag a ddefnyddir i gymeradwyo terfynau gwariant yn gofyn am weithdrefnau craffu a diwygio arferol. Gallai hyn amharu ar y gallu i gymeradwyo cynlluniau gwario cyn dechrau'r flwyddyn ariannol a gallai effeithio ar allu i roi sicrwydd ariannol i bartneriaid a rhanddeiliaid. Felly byddai angen ystyried unrhyw gynnig i symud i un cyfrwng deddfwriaethol yn ofalus a chyda thystiolaeth glir o ran y manteision ychwanegol a fyddai'n dod yn sgil hyn.

Mae'n parhau i fod yn wir mai pwerau cyfyngedig dros drethiant sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Ar sail ein pwerau trethu presennol nid yw'r angen am ddeddfwriaeth treth flynyddol, na’i manteision, yn glir. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gallu gwneud newidiadau cyflym i ddeddfwriaeth treth mewn rhai amgylchiadau. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn ystyried yr achos dros Fil ar gyfer Blwyddyn 1 y Senedd nesaf a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ar fyr rybudd. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â'r Pwyllgor Cyllid er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac rydym wrthi'n cynllunio i ymgynghori arni ym mis Gorffennaf.

**Casgliad**

Byddai bwrw ymlaen â datblygiadau pellach i broses y gyllideb yn gofyn am gryn dipyn o ymgysylltu a chydweithredu dros y misoedd nesaf, a hynny ar adeg pan ydym yn wynebu heriau digynsail o ganlyniad i’r pandemig coronafeirws. Byddai angen inni hefyd fod yn fodlon ar fanteision symud i ddull gwahanol yn gymharol fuan ar ôl inni symud i'r broses bresennol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** IE/20004/AC/191/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 5 May 2020

Annwyl Llŷr

## Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Cyllid

Yn yr amser eithriadol hwn, roedd arnom eisiau rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar effeithiau posibl argyfwng y Coronafeirws ar y gwaith yr ydym yn ei gyflawni ac ar ein sefyllfa ariannol.

### Cynllun Blynyddol ac Amcangyfrif 2020-21

Fel y gwyddoch, y mis diwethaf fe wnaethom dynnu'n ôl o'r holl waith archwilio ar safle er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth cyhoeddus ganolbwyntio ar ei ymateb di-oed i'r pandemig. Roedd yr adborth a dderbyniwyd i'r penderfyniad hwnnw yn un cwbl gadarnhaol. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd ar weithgarwch arall tra'n gweithio ac yn ymgysylltu o bell.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau na fydd ein gwaith archwilio'n cael effaith niweidiol ar ymdrechion cyrff cyhoeddus, sydd dan bwysau mawr, i ddelio â'r argyfwng cenedlaethol. Nid yw hynny, fodd bynnag, i ddweud y dylem fod yn gwbl oddefol. Mae gan waith archwilio cyhoeddus, sydd wedi ei dargedu a'i gyflawni'n dda, ran bwysicach nag erioed i'w chwarae ar yr amser yma o ran sicrhau gwerth am arian, llywodraethu da ac atebolrwydd.

Yr her i ni yw adrodd ar lefel briodol ar sail tystiolaeth i gefnogi atebolrwydd a chynnig mewnwelediad ar yr adeg fwyaf addas. Rhaid inni beidio â mynd ar ffordd gweision cyhoeddus sy'n gweithio'n galed i achub bywydau, ond mae'n rhaid inni hefyd sicrhau ein bod yn adrodd mewn dull digon cadarn a phrydlon i gefnogi atebolrwydd priodol am arian cyhoeddus. Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Brif Weithredwyr yr holl gyrff a archwilir yr wythnos hon, yn egluro sut y byddwn yn mynd o gwmpas ein gwaith yn y misoedd sydd i ddod. Amlinellir y themâu allweddol isod, y bydd y cyfan ohonynt, fe gredwn, yn darparu mewnwelediad pwysig i gefnogi gwaith y Pwyllgor a'r Senedd yn ei chyfanrwydd.

Mae'n amlwg eisoes i dimau archwilio bod pobl a sefydliadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn ymateb i COVID-19. Mae'r argyfwng yn gorfodi pawb ohonom i arloesi a mynd i'r afael â materion hirsefydlog ar frys. Bydd cyfleoedd a risgiau yn ddiamau yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn a all, os gweithredir arnynt yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach, gynhyrchu manteision amser real a bod o gymorth i liniaru risgiau eraill. I'r perwyl hwnnw, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cychwyn gwaith arloesol i ddal a rhannu dysgu a phrofiad mewn amser real ar draws y cyrff a archwilir gennym. Byddwn yn rhannu'r hyn sy'n cael ei ddirnad o ganlyniad yn gyflym â'n cysylltiadau allweddol ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Mae Archwilio Cymru yn olrhain llifoedd cyllid amrywiol COVID-19 oddi wrth Lywodraethau'r DU a Chymru ac yn ystyried beth yw'r ffordd orau i sicrhau pobl Cymru bod yr arian hwnnw'n cael ei reoli'n dda a bod llywodraethu ac atebolrwydd priodol am y defnydd o arian cyhoeddus. Gan edrych ychydig ymhellach ymlaen, rhagwelwn y byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae effaith yr argyfwng presennol yn ei olygu o ran cadernid a ffurf y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffordd synhwyrol ac ymarferol ymlaen ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon, gyda golwg ar ymestyn amserlenni'r cyfrifon ymarferol a'r gwaith archwilio ar gyfer y llywodraeth ganolog a chyrff y GIG. Mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru hyn yn eu llythyr ar y cyd dyddiedig 14 Ebrill at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Os daw yn amlwg y gall terfynau amser statudol gael eu colli o ganlyniad i'r amserlenni diwygiedig y cytunir arnynt, byddwn yn ceisio hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd. Mae'n anffodus ei bod bron yn sicr na fydd y diwygiadau defnyddiol iawn i'r gofynion gosod, a gynigiwyd ym Mil Archwilio Cyhoeddus (Diwygiad) (Cymru) drafft y Pwyllgor, yn eu lle mewn pryd i atal torri'r terfynau amser statudol.

O ran llywodraeth leol, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru ac awdurdodau lleol unigol ar newidiadau defnyddiol y gellid eu gwneud i'r cyfrifon am eleni fydd, er hynny, yn dal i gwrdd â'r gofynion cyfreithiol a phroffesiynol. Mae deddfwriaeth eisoes yn caniatáu i awdurdodau lleol ohirio cyhoeddi cyfrifon a archwiliwyd.

Gobeithiwn fod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod ein hadolygiad o'n rhaglenni gwaith yn mynd rhagddo a bwriadwn adrodd yn ôl i chi yn y misoedd i ddod. Ein bwriad yw defnyddio ein Hadroddiad Dros dro fel y mecanwaith ffurfiol i ddiwygio'r hyn y gellir ei gyflawni eleni.

Yn cyd-redeg â'n hadolygiad o'n rhaglenni gwaith archwilio a gwaith corfforaethol byddwn yn ailasesu ein rhagdybiaethau gwariant ac incwm am y flwyddyn. Rydym yn tynnu sylw yn awr, fodd bynnag, at y tebygolrwydd o ostyngiad sylweddol yn ein hincwm amcangyfrifedig o ffioedd gan y cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu

harchwilio, yn sgil newidiadau i swm ac amseriad ein gwaith archwilio ar gyfer y flwyddyn. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd angen i ni ofyn am arian cyllideb atodol o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn gwneud iawn am y diffyg oherwydd y gostyngiad hwn mewn incwm ffioedd, llai'r gostyngiadau mewn costau gweithredu yr ydym yn gallu eu sicrhau. Y gwir yw, gan mai costau staff sy'n cyfrif am bron 80% o'n costau gweithredu, nid oes ymateb hawdd na chyflym y gallwn ei wneud i leihau ein costau, ond rydym yn lleihau i'r eithaf y gwariant nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni ein rhaglenni gwaith diwygiedig. Fel y crybwyllwyd uchod, rydym yn ailflaenoriaethu ein harbenigedd a'n capasiti archwilio tuag at waith arall sy'n ychwanegu gwerth, ond ni ellir codi tâl am y gwaith hwnnw drwy'r Cynlluniau Archwilio yr ydym wedi cytuno arnynt gyda'r cyrff a archwiliwn. Eto, rydym yn gweithio'n fanwl drwy hyn a byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor yn y misoedd i ddod.

## Archwilio Cymru

Byddwch wedi sylwi ar y newid yn yr hunaniaeth a'r enw yn y llythyr hwn. Mewn ymateb i adborth ar y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu, y llynedd fe benderfynasom ddwyn ynghyd hunaniaethau gwahanol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru dan un hunaniaeth ymbarél - Archwilio Cymru. Dilynodd hyn ein prosiect trawsnewid cyfathrebu ac effaith, y buom yn ei drafod gyda'r Pwyllgor o'r blaen. Mater eilradd, yn amlwg, yw hwn yn yr amgylchiadau presennol, ac felly nid ydym wedi tynnu sylw mawr at y newid a byddwn yn ei ledaenu'n dawel ac ar gost isel dros y misoedd nesaf.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn dal yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, ond byddwn yn gweithredu fel Archwilio Cymru o hyn ymlaen yn y rhan fwyaf o'n gwaith gyda'r cyhoedd. Dim ond un rhan ydyw o raglen ehangach o newid ar gyfer ein hadroddiadau archwilio; ein gwefan; ein harddull gyfathrebu a'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu'n fwy cyffredinol, yr ydym yn gobeithio y byddwch yn ei chydnabod ac yn ei gwerthfawrogi. Byddwn yn gweithio gyda thîm clercio'r Pwyllgor ar y defnydd o'r hunaniaeth newydd a byddwn yn cyfathrebu'n ehangach ar draws y Cynulliad ar yr amser priodol.

Yn olaf, hoffem roi ar gof a chadw gyda'r Pwyllgor ymateb rhagorol staff Archwilio Cymru ar yr amser anghyffredin hwn. Maent i gyd yn gweithio o'u cartrefi ac yn ymgysylltu o bell â chydweithwyr mewn cyrff a archwilir i fod mor gefnogol a hyblyg ag sydd modd wrth gyflawni ein gwaith. Rydym wedi rhoi cryn bwys ar les y staff, gan weithio'n agos gyda chynrychiolwyr ein hundebau llafur, ac mae'r adborth gan y staff wedi bod yn gadarnhaol.

Gobeithio bod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac, wrth gwrs, rydym yn hapus i roi mwy o wybodaeth os bydd angen.

Yn gywir

| | |
|---|---|
| **ISOBEL EVERETT** | **ADRIAN CROMPTON** |
| **Chair, Wales Audit Office** | **Auditor General for Wales** |

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon